Cyfarfu Pwyllgor yr Urdd i wneud trefniadau ar gyfer y tymor. Cadeirydd y pwyllgor yw R.T.Evans, ysgrifennydd Mrs. Glenys Howells, Trysorydd Mrs. Iris Richards, Is-drysorydd Mrs. Carys Jones.

Penderfynwyd cyflwyno hanner can punt i'r Apel Plant Mewn Angen.

Fel ysgol dymunwn yn dda i Mr. T. Martin Davies sy'n ymddeol o fod yn brifathro ysgol Penllwyn wedi 32 o flynyddoedd o wasanaeth. Mae gan lawer o blant Penrhyn-coch atgofion hyfryd o'r gwahanol amserau y buont yng nghwmni Mr. Davies yn y gwersyll ym Mhentwyn ac ati. Hwyl fawr ac ymddeoliad hapus iawn i chwi Mr. Davies.